

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Castle Court,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 31 Gorffennaf
2018

Dyddiad cyhoeddi: 1 Tachwedd
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Castle Court yn 1 Castle Court, Dinas Powys, Bro Morgannwg CF64 4NS, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 31 Gorffennaf 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Castle Court yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon uchel.

Argymhellwn y dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau cymheiriaid er mwyn cefnogi dysgu.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd dystiolaeth bod perchnogion y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn.
- Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn cael ei drin ag urddas a pharch.
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis wneud yn siŵr bod ei daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd i'r cleifion.
- Mae angen i'r practis wneud yn siŵr bod y padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.
- Mae angen i'r biniau gwastraff clinigol yn y deintyddfeydd gynnwys y bagiau sbwriel priodol ar gyfer gwastraff clinigol.
- Dylid cael tywelion dwylo tafladwy neu beiriant sychu dwylo yn nhoiled y staff yn hytrach na thywel llaw.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Castle Court yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Dinas Powys. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a dau aelod o staff y dderbynfa.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym bod Practis Deintyddol Castle Court yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog, yn dda iawn neu'n dda. Hefyd, dywedodd pob claf wrthym fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd system ar waith ar gyfer nodi cwynion ffurfiol. Fodd bynnag, nid oedd y camau gweithredu a gymerwyd a chanlyniad pob cwyn bob amser yn cael eu cofnodi. Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion ac yn gwahodd cleifion i gyflwyno awgrymiadau ond gallai wneud mwy i roi adborth i gleifion ar ganlyniadau eu sylwadau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 40 o holiaduron. Cwblhawyd y mwyafrif o'r holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

Gwasanaeth gwych. Mae pob aelod o'r staff yn ystyrlon ac yn ofalgar. Mae gennyf anabledd yn fy nghefn ac mae'r staff yn gwneud ymdrech fawr i wneud i fi deimlo'n gyfforddus.

Bob amser yn ddymunol ac yn barod iawn i roi cymorth. Gofal deintyddol o'r radd flaenaf

Mae staff y practis yn gyfeillgar iawn ac yn hawdd mynd atynt

Mae'r deintydd newydd yn ein practis yn Gymro Cymraeg. Daw i gwrdd â phob un sy'n cael triniaeth ganddo ac ysgwyd llaw hefyd. Mae'n wych medru cyfathrebu yn fy mamiaith.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; nododd un claf:

Cael gwneud apwyntiadau argyfwng yn haws

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Ar ddechrau'r arolygiad, nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd ar gael, megis llyfrynnau am driniaethau a chyngor ataliol. Ar ôl tynnu sylw'r practis at hyn, cafodd detholiad o ddeunyddiau ei roi yn yr ardal aros.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur wrthym ei fod o'r farn ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y staff yn trin y cleifion yn gwrtais a phroffesiynol.

Roedd pob rhan o'r practis ar y llawr daear. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio'r ardal y tu ôl i'r dderbynfa os oedd angen cael trafodaeth breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â'r claf.

Roedd gwybodaeth mewn llawysgrifen neu wybodaeth electronig am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu.

Roedd gan bob un o'r deintyddfeydd ddrysau y gellid eu cau pan oedd claf yn cael triniaeth, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Roedd gan y practis bolisi hawliau dynol a chydraddoldeb, polisi gofal cleifion a pholisi profiad y claf ar waith.

Nodwyd gennym fod y Taflenni Gwybodaeth i Gleifion yn adlewyrchu'r 9 egwyddor a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, er nad ydynt yn cyfeirio atynt yn benodol.¹ Mae'r egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth am gleifion

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny) a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Pan fo'n briodol, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Roedd taflenni yn nodi costau triniaeth breifat yn yr ardal aros. Dywedwyd wrthym mai dim ond cleifion y GIG na chodir tâl arnynt am driniaethau y mae'r practis yn eu trin, a oedd yn golygu nad oedd angen rhestr prisiau'r GIG.

Gwelsom fod cynlluniau triniaeth wedi'u cofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion. Roedd gan y practis hefyd bolisiau priodol ar waith, gan gynnwys polisi cynllunio triniaeth a pholisi deintyddiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth. Nodwyd gennym hefyd bolisiau yn ymwneud â darparu gwybodaeth am godi tâl a chydysyniad cleifion.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, roedd gan y practis Daflen Wybodaeth i Gleifion, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac a oedd ar gael ar gais yn y practis. Rydym yn argymhell ei bod ar gael i gleifion yn yr ardal aros er mwyn iddynt ei darllen pe byddent yn dymuno, heb orfod gofyn i aelod o'r staff.

Y tu allan i'r practis, gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng yn cael eu harddangos, ynghyd ag enwau a chymwysterau'r deintyddion i gyd.

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

Nodwyd gennym fod polisïau ar waith yn ymwneud â diogelu data a rheoli cofnodion, gan gynnwys polisi ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.²

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wneud yn siŵr bod ei daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd i'r cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd bron bob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n eu rhoi, ynghyd â rhestr brisiau. Roedd hefyd yn rhoi canllawiau ar wneud cwyn, manylion tîm y practis, yr oriau agor a sut i gael triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd ychydig dros chwarter y cleifion hefyd na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos ar ffenestr flaen y practis ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis, ac ar gael ar y wefan.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

² <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis yn rhoi triniaethau fel y nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben³.

Dangosodd adolygiad o gofnodion y cleifion fod cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Nid oedd gan y practis faes parcio ond roedd digon o le i barcio ar gael gerllaw. Roedd llethr â chanllawiau yn rhoi mynediad i'r practis, gan ei gwneud yn bosibl i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn ddefnyddio'r fynedfa. Roedd y practis ar y llawr daear, a oedd yn golygu bod yr ardaloedd cleifion yn hygyrch i bawb.

Roedd canllawiau yn rhoiled y cleifion ond roedd yn fach ac felly mae'n bosibl na fyddai'n addas i ddefnyddiwr cadair olwyn.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cydraddoldeb, urddas a hawliau dynol. Roedd y Daflen Gwybodaeth i Gleifion yn nodi hawliau a chyfrifoldebau cleifion a oedd yn cadw at 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Pan fo'n berthnasol, roedd y polisi'n gyson â phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"⁴, ac o ran triniaeth ddeintyddol

³ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

⁴ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

breifat, roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017⁵. Roedd y polisi'n cael ei arddangos yn y dderbynfa. Byddem yn cynghori'r practis i arddangos posteri "Gweithio i Wella" a threfnu bod taflenni "Gweithio i Wella" ar gael.

Roedd y practis yn cadw ffolder ar gyfer ffeilio cwynion a oedd yn cynnwys ffurflen i'w chwblhau, ond nid oedd yn gyflawn. Argymhellwn y dylai'r practis gadw'r ffolder cwynion, gan sicrhau bod natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad wedi'u cofnodi.

Nid yw'r practis yn cofnodi unrhyw adborth anffurfiol, a byddem yn ei gynghori i roi proses ar waith ar gyfer cofnodi unrhyw adborth anffurfiol gan gleifion.

Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion ac mae ganddo hefyd flwch awgrymiadau. Er bod y practis yn adolygu'r sylwadau i gyd, nid yw'n rhoi adborth i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddarau ei wefan i gynnwys cylchlythyr i gleifion a byddem yn argymhell bod y practis yn cynnwys adran adborth yn arddull "dywedoch chi: gwnaethom ni" mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wneud yn siŵr bod natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad wedi'u cofnodi a'u ffeilio ynghyd â'r holl ddogfennaeth gefnogol mewn un lle.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/202/made/welsh>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cynnal i safon uchel.

Nodwyd gennym drefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, a nodwyd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Argymhellwn fod y practis yn rhoi cleon ar ddrysau'r ystafell staff a'r ystafell radiograffeg er mwyn gwneud yn siŵr na all cleifion gael mynediad at ardaloedd staff yn unig. Bydd hyn hefyd yn sicrhau diogelwch yr offer a'r cyffuriau argyfwng, a gaiff eu storio yn yr ystafell radiograffeg; a'r ystafell ddihalogi, yr eir ati drwy'r ystafell staff.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Nodwyd gennym fod nifer o bolisïau perthnasol ar waith, gan gynnwys polisi ymarferion tân a pholisi iechyd a diogelwch. Gwelsom boster iechyd a diogelwch ond byddem yn cynghori'r practis i ychwanegu manylion swyddfa agosaf yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nodwyd gennym hefyd y cynhaliwyd asesiadau risg iechyd a diogelwch, amgylcheddol a tân.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn. Yn allanol, roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Y tu mewn i'r adeilad, nodwyd y canlynol gennym:

- Roedd cadeiriau ffabrig yn y deintyddfeydd ac rydym yn cynghori, at ddibenion rheoli heintiau, eu bod yn cael gwared arnynt ac yn cael

rhai y gellir eu golchi yn eu lle, neu fod y practis o leiaf yn datblygu protocol diheintio ar gyfer eu glanhau. Byddem yn cynghori hefyd fod y ddeintyddfa yn rhoi protocol diheintio ar waith ar gyfer glanhau'r teganau yn yr ardal aros i blant.

- Gwelsom lwch ar ben cwpwrdd yn Neintyddfa 1. Rydym yn argymhell bod y practis yn ymdrin â hyn. Nodwyd gennym hefyd fod y ddeintyddfa hon yn gyffredinol anniben, ac rydym yn cynghori y dylid unioni hynny.
- Nid oedd y drws i'r ystafell staff (a oedd yn arwain at yr ystafelloedd dihalogi) wedi'i ddiogelu. Argymhellwn roi clo arno er mwyn gwneud yn siŵr nad yw aelodau o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad at yr ardaloedd hyn.

Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn lân ac yn daclus.

Nodwyd gennym bod dyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis. Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd yr allanfa dân.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus, gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel. Nid oedd bin cynhyrchion mislif yn nhoiled y staff ac mae angen unioni hynny. Yn ogystal, tywel llaw oedd yno i'r staff sychu eu dwylo ar ôl eu golchi. Mae angen cael tywelion llaw tafladwy neu beiriant sychu dwylo yn lle'r tywel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thafenni data diogelwch perthnasol a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau a llyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a oedd yn cael ei gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd. Nodwyd gennym hefyd bolisi digwyddiadau difrifol, polisi trin a thrafod mercwri, polisi argyfyngau meddygol a pholisïau cynllunio ar gyfer trychinebau a chynllunio wrth gefn ar gyfer argyfyngau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Newid y cadeiriau ffabrig yn y deintyddfeydd am rai y gellir ei golchi, neu dylai'r practis o leiaf ddatblygu protocol ddiheintio.

Dylai'r practis sicrhau nad oes llwch yn yr ardaloedd clinigol

Dylai'r practis roi cloeon ar ddrws yr ystafell staff

Dylai'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y staff

Dylid newid y tywel llaw yn nhoiled y staff am dywelion llaw tafladwy neu beiriant sychu dwylo

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁶. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ac offer miniog ar waith.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi. Mae bin â chaead siglo yn yr ystafell ddihalogi ac argymhellwn y dylid cael bin pedal yn ei le.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar yn unol â WHTM 01-05.

Roedd rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer glanhau'r ddeintyddfa ar waith, ac yn gyflawn. Gwelsom hefyd fod yr ardaloedd glân a budr yn y ddeintyddfa wedi'u nodi'n glir. Yn Neintyddfa 1, nid oedd bagiau sbwriel ar gyfer gwastraff clinigol yn y biniau gwastraff clinigol, ac argymhellwn fod hyn yn cael ei unioni.

⁶Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar reoli heintiau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wneud yn siŵr bod y biniau gwastraff clinigol i gyd yn cynnwys bagiau sbwriel priodol ar gyfer gwastraff clinigol.

Dylai'r practis gael gwared ar y bin â chaead swing yn yr ystafell ddihalogi a chael un â phedal yn ei le.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion. Roedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y staff y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁷. Nodwyd gennym fod system ar waith yn y practis ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer argyfwng yn barod i'w defnyddio.

Roedd yr offer a'r cyffuriau argyfwng yn cael eu storio yn yr ystafell radiograffeg, a heb eu diogelu. Roedd y padiau presgripsiwn hefyd yn cael eu storio yn yr ystafell hon. Argymhellwn y rhoddir clo allweddabad ar y drws, sy'n sicrhau diogelwch yr offer a'r cyffuriau argyfwng a'r padiau presgripsiwn, a rhoi mynediad hawdd i'r staff. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y cyffuriau argyfwng eu had-drefnu, a hynny hefyd at ddibenion mynediad hawdd. Gwelsom fod rhai o'r rhwymynnau wedi mynd heibio'u dyddiad defnyddio, ac aeth y staff ati ar unwaith i gael gwared arnynt.

Roedd gan y practis bolisi yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu

⁷Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi clo priodol ar ddrws yr ystafell radiograffeg er mwyn sicrhau diogelwch yr offer a'r cyffuriau argyfwng.

Dylai'r practis sicrhau bod y padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Ac eithrio un deintydd, roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad, cafodd y deintydd, a oedd wedi cael hyfforddiant blaenorol ar ddiogelu oedolion agored i niwed, yr hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant, a rhoddodd gopi o'r dystysgrif i ni.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny yn y practis. Roedd y practis wedi pennu swyddog arweiniol ar gyfer diogelu. Roedd siartiau llif yn rhoi cyngor am ddiogelu wedi'u harddangos ym mhob un o'r deintyddfeydd ac yn yr ystafell staff. Roedd gan y practis bolisi diogelu a chanllawiau ategol ond roedd y dogfennau hyn yn cael eu cadw mewn tri ffolder ar wahân ac rydym yn argymhell bod yr wybodaeth hon yn cael ei ffeilio mewn un man.

Roedd gan y staff clinigol a'r staff anghlinigol dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol, gan gynnwys polisi ymbelydredd.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁸ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)⁹ 2000, roedd pob aelod o staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol. Ymhlith yr archwiliadau a gaiff eu cynnal, mae archwiliad cofnodion clinigol, archwiliad radiograffeg ac archwiliad rheoli heintiau.

Nodwyd gennym fod polisiau ar waith yn y practis yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion ac asesu, diagnosis a thrin cleifion, gan gynnwys polisi deintyddiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth a pholisi cynllunio triniaeth.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid deintyddol yn cael eu cynnal. Byddem yn argymhell y dylid trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd rhwng y deintyddion at y diben hwn. Awgrymwn hefyd fod y nyrsys deintyddol yn ystyried trefnu cyfarfodydd rheolaidd at ddibenion trafod materion clinigol.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried gwneud cais am adnodd datblygu practisau 'Maturity Matrix Dentistry' Deoniaeth Cymru. Mae'r 'Maturity Matrix Tool' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

⁸ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁹ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygu cymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion ar bapur, a nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu creu o ffeiliau electronig.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi cofnodion.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd proses cadw cofnodion o safon dda iawn yn cael ei dilyn, gan awgrymu bod gofal da wedi'i roi i gleifion. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn. Felly, rhaid canmol ansawdd y broses cadw cofnodion clinigol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y ddau brif ddeintydd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, ac roedd y staff yn cael eu harfarnu bob blwyddyn ac yn cael cyfarfodydd yn rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r ddau brif ddeintydd wedi bod yn berchen ar Bractis Deintyddol Castle Court ers mis Tachwedd 2017. Mae'r ddau yn rhannu rôl yr unigolyn cyfrifol ¹⁰a

¹⁰Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

rôl y rheolwr cofrestredig¹¹. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod pob aelod o staff yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Argymhellwn y dylai'r practis ofyn i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisiâu ac wedi'u deall.

Rhoddwyd copïau o'r Datganiadau o Ddiben i ni, un ar gyfer y naill unigolyn cyfrifol a'r llall. Roedd y ddau yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ond mae angen iddynt gynnwys mwy o fanylion am drefniadau'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion.

Cadarnhaodd y ddau brif ddeintydd eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, sy'n rhaid eu hanfon at AGIC o dan reoliadau 25-29 o'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diwygio'r ddau Ddatganiad o Ddiben er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am y broses ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiâu Adnoddau Dynol ar waith yn y practis, ac roedd y staff wedi'u llofnodi i ddangos eu bod wedi'u darllen a'u deall. Roedd y polisiâu hyn

¹¹Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat;

yn cael eu cadw mewn nifer o wahanol ffeiliau a byddem yn awgrymu eu bod yn cael eu ffeilio mewn un ffolder polisi Adnoddau Dynol, er hwylustod.

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Dywedwyd wrthym hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith yn y practis. Pan fyddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio dros dro, roedd gweithdrefn ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu. Mae cyfarfodydd arfarnu yn cynnwys trafodaeth ynghylch hyfforddiant a datblygiad. Ers i'r prif ddeintyddion brynu'r practis, cynhaliwyd arfarniadau bob tri mis er mwyn cefnogi'r staff i addasu i'r newid mewn perchnogaeth. Dywedwyd wrthym fod hyn ar fin newid, ac y byddent yn cael eu cynnal bob chwe mis.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Roedd rhestr wirio hyfforddiant ar ffeil pob aelod o'r staff yn amlygu'r hyfforddiant y dylent ei ddilyn.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd tîm misol ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn. Ar ôl pob cyfarfod, caiff y cofnodion eu rhoi ar hysbysfwrdd y staff er mwyn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff, gan gynnwys y rhai na wnaethant fynychu, yn ymwybodol o'r materion a drafodwyd a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Rydym yn cynghori bod pob aelod o'r staff yn eu llofnodi i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Cadarnhaodd y ddau brif ddeintydd yn rhinwedd eu rolau fel rheolwyr cofrestredig ac unigolion cyfrifol eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u rhwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw ddeunydd hybu iechyd ar gael. Ar ôl tynnu sylw'r practis at hyn, cafodd detholiad o ddeunyddiau ei roi yn yr ardal aros	Mae gwybodaeth hybu iechyd, megis taflenni am driniaethau a chyngor ataliol, yn helpu i gefnogi iechyd y geg y cleifion.	Gwnaethom godi hyn fel pryder gyda'r rheolwyr cofrestredig.	Defnyddiodd y rheolwyr cofrestredig stand a thafenni a oedd ganddynt wedi'u storio, a'u harddangos yn yr ardal aros.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Castle Court

Dyddiad arolygu: 31 Gorffennaf 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghlŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd: **Dyddiad:**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Castle Court

Dyddiad arolygu: 31 Gorffennaf 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis wneud yn siŵr bod ei daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd i'r cleifion.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adrannau 6 ac 8	Bydd taflenni ar gael yn hawdd i'r cleifion yn y dderbynfa	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018
Dylai'r practis wneud yn siŵr bod natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad wedi'i gofnodi a'i ffeilio ynghyd â'r holl	6.3 Gwrando ar adborth a dysgu oddi wrtho, Rheoliadau	Cofnodi canlyniad cwynion a'r camau a gymerwyd ynghyd â'u natur yn y ffeil cwynion.	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddogfennaeth gefnogol mewn un lle.	Deintyddiaeth Breifat 2017, Adrannau 6 ac 8			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Newid y cadeiriau ffabrig yn y deintyddfeydd am rai y gellir ei golchi, neu dylai'r practis o leiaf ddatblygu protocol ddiheintio.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch;	Prynu cadeiriau pren a phlastig newydd yn lle'r cadeiriau ychwanegol i westeion yn y ddeintyddfa.	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018
Dylai'r practis sicrhau nad oes llwch ym mhob ardal glinigol	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 22	Glanhau'r ardal fach o lwch ar ben y cwpwrdd yn neintyddfa 1 ar unwaith. Addasu'r rhestr wirio i atal yr ardal honno rhag cael ei hanghofio yn y dyfodol.	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018
Dylai'r practis roi cleon ar ddrws yr ystafell staff		Prynu clo cyfunrhif a'i osod ar ddrws yr ystafell staff.	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Hydref 2018
Dylai'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y staff		Yn ogystal â'r bin cynhyrchion mislif a oedd ar gael yn barod yn nhoiled y cleifion, mae ail fin cynhyrchion mislif wedi'i brynu ar gyfer toiled y staff	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Medi 2018
Dylid newid y tywel llaw yn nhoiled y staff am dywelion llaw tafladwy neu beiriant sychu		Prynu a gosod dosbarthwr tywelion papur ar gyfer toiled y staff	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dwylo				
Dylai'r practis wneud yn siŵr bod y biniau gwastraff clinigol i gyd yn cynnwys bagiau sbwriel priodol ar gyfer gwastraff clinigol.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, adran 13 WHTM 01-05	Bagiau gwastraff priodol i'w rhoi ym mhob bin ac ychwanegu hyn i'r rhestr wirio ddyddiol	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018
Dylai'r practis gael gwared ar y bin â chaead swing yn yr ystafell ddihalogi a chael un â phedal yn ei le.		Prynwyd bin pedal newydd yn lle'r hen fin	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018
Dylai'r practis roi clo priodol ar ddrws yr ystafell radiograffeg er mwyn sicrhau diogelwch yr offer a'r cyffuriau argyfwng.	2.6 Rheoli Meddyginiaet hau; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 13	Bydd clo yn cael ei osod ar ôl i waith ailwampio gael ei wneud ac ar ôl i ddrws newydd wedi'i leinio â phlwm gael ei osod.	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Tachwedd/R hagfyr 2018
Dylai'r practis sicrhau bod y padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.		Mae'r padiau presgripsiwn bellach yn cael eu cadw dan glo a dim ond pan fod angen eu defnyddio y cânt eu tynnu allan	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Awst 2018
Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygu cymheiriaid.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac	Bydd y practis yn ffurfioli ac yn cofnodi'r cyfarfodydd adolygu gan gymheiriaid parhaus a gynhelir rhwng	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Medi 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Arloesi; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adran 16	y staff yn y practis. Edrych ar opsiynau ar gyfer trefnu archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda phracticisau eraill.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylid diwygio'r ddau Ddatganiad o Ddiben er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am y broses ar gyfer ymdrin â chwynion gan gleifion.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 adrannau 5 a 7 ac Atodlen 1	Caiff y Datganiad o Ddiben ei ddiwygio i roi mwy o wybodaeth a manylion i'r cleifion am y broses gwynion	Eifion Roberts a Bharat Nagrani	Hydref 2018

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Eifion Roberts

Teitl swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 25/09/2018